| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Gorffennaf 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Cynllun Gwella Llywodraethu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu cynllun gwella i'r Pwyllgor o ganlyniad i'r adolygiad o fframwaith llywodraethu'r Cyngor ar gyfer 2013/14.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn monitro'r Cynllun Gwella Llywodraethu'n rheolaidd fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor i sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu'r gwelliannau angenrheidiol yn effeithiol.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar y Cynllun Gwella Llywodraethu, gan ofyn am unrhyw sicrwydd ychwanegol y mae'n teimlo sy'n angenrheidiol ar unrhyw un o'r camau gweithredu o fewn y Cynllun.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys asesiad blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a 'datganiad llywodraethu blynyddol' sy'n amlygu unrhyw wendidau llywodraethu.

4.2 Mae Grŵp Llywodraethu'r Cyngor yn rheoli proses y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a datblygiad 'datganiad llywodraethu blynyddol' yn barhaus yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys:

- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Archwilio Mewnol

4.3 Mae Atodiad 1 yn dangos y Cynllun Gwella Llywodraethu sy'n codi o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer 2013/14. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw rhai o'r camau gwella, cyfrifoldebau ac

amserlenni arfaethedig wedi eu cwblhau. Bydd diweddariad ar lafar yn cael ei ddarparu i'r pwyllgor ar y meysydd hyn yng nghyfarfod y pwyllgor, gan y bydd y Cynllun wedi'i gwblhau erbyn hynny.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn. Er nad yw'r Cynllun Gwella Llywodraethu yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol, mae llywodraethu da yn chwarae rhan sylweddol yn y Cyngor a'i drefniadau ar gyfer cyflawni amcanion corfforaethol. Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys asesiad o berfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor, trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati, pob yn cael eu cyfeirio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ynghlwm wrth yr adroddiad hwn a'r unig effaith ar wasanaethau yw lle mae'r adroddiad yn nodi meysydd ar gyfer gwella; fodd bynnag, bydd gwasanaethau eisoes yn ymwybodol o'r rhain a dylent fod yn cynnwys hyn yn eu cynlluniau gwasanaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad neu gynnig ar gyfer newid ar gyfer yr adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae'r Cynllun Gwella Llywodraethu yn ffurfio rhan o'r ddogfen 'Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus' a drafodwyd yn y:

- Tîm Gweithredol Corfforaethol ar 17 Mawrth 2014
- Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 15 Ebrill 2014
- Briffio'r Cyngor ar 28 Ebrill 2014
- Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 1 Mai 2014
- Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 21 Mai 2014

Hefyd cafodd ei ddosbarthu i aelodau'r Cabinet a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer sylwadau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y prif risg ynghlwm â'r adroddiad hwn yw peidio â chyflawni'r Cynllun Gwella Llywodraethu neu welliannau penodol a gynhwysir ynddo. Byddai hyn yn golygu nad yw gwendidau yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gwella, a allai arwain at

feirniadaeth gan y rheolydd allanol a'r effaith ar enw da'r Cyngor fel sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n dda.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes angen gwneud penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae gofyniad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i'r 'pwyllgor archwilio' oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.